

RHEOLWR FFOLIO

Lleoliad: Cymru. Gweithio'n hyblygmewn cymunedau ledled Cymru ac yn swyddfa Ffilm Cymru yn Tramshed Tech, Caerdydd.

Telerau: Cytundeb tymor penodol 12 mis. Llawn amser neu bron yn llawn amser (yn agored i gynigion ar oriau hyblyg). I ddechrau cyn gynted a phosib.

Cyflwg: £23,000 - £26,000 a phensiwn a 28 diwrnod o wyliau (yn cael ei addasu'n pro-rata ar gyfer rhan amser)

GWYBODAETH GEFNDIR

Mae Ffilm Cymru wedi'i ymrwymo i gefnogi twf cynaliadwy yn y sector ffilm yng Nghymru a'i gwneud yn haws i bobl Cymru weld ffilmiau a sylweddoli eu manteision. Rydym yn gweithio ar draws cadwyn gyflenwi'r sector, yn cefnogi datblygu ffilmiau, yn cynhyrchu ac arddangos ffilmiau, yn addysgu ar ffilmiau a'r cyfryngau ac yn cynnig cyngor, cyllid, gwella sgiliau ac eiriolaeth.

Mae Ffilm Cymru wedi ffurfio partneriaeth â Chelfyddydau'r BBC, BBC Wales a Chyngor Celfyddydau Cymru i ddarparu Ffolio, rhaglen gomisiynu a datblygu talent i gefnogi cynhyrchu hyd at 16 o ffilmiau byrion ar gyfer cynulleidfaoedd ar lein gan artistiaid sydd newydd ymddangos ac sy'n cael eu tan gynrychioli yng Nghymru.

Rydym yn rhagweld cynnal 3 – 4 o ddigwyddiadau hyfforddi rhad ac am ddim a 6 o ddigwyddiadau darganfod i ganfod artistiaid mewn rhaglen flwyddyn o hyd.

Bydd dau derfyn amser ar gyfer artistiaid sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd hyfforddi hwn, gyda chyfnodau Datgan Diddordeb a chais llawn, a bydd hyd at 16 o ffilmiau byrion yn cael eu cynhyrchu gan BBC Wales ac yn cael eu rhyddhau ar lwyfannau digidol y BBC a thu hwnt.

Y syniad yw defnyddio ffilmiau byr fel modd i artistiaid ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau i archwilio a rhannu eu syniadau a'u celfyddyd.

Am ragor o wybodaeth ar Ffilm Cymru, ewch ar ein gwefan ac edrych ar ein Hadroddiadau Blynyddol.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Mae Ffilm Cymru'n chwilio am Reolwr Prosiect i weithio mewn cymunedau i'w helpu i ddarganfod, cefnogi a hyfforddi artistiaid sy'n cael eu tan gynrychioli yng Nghymru i wneud ffilmiau byrion ar gyfer cynulleidfaoedd ar lein.

Y Rheolwr Ffolio fydd y man cyswllt cyntaf ar gyfer ymgeiswyr a rhai sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant; bydd hefyd yn fan allweddol i gydlynu gyda phartneriaid Ffolio, gan eu diweddarau ar adegau priodol. Bydd yn dylunio ac yn darparu'r deunydd ymestyn allan a'r hyfforddiant, yn rheoli'r system ar gyfer ceisiadau ac yn cymryd penderfyniadau ar y ceisiadau hynny, yn ogystal â nodi mentoriaid posibl a'u cydweddu gydag artistiaid.

Bydd y BBC yn goruchwyllo'r broses o ddatblygu a chynhyrchu'r ffilmiau ond bydd y Rheolwr Ffolio'n bwydo i'r broses hon.

Bydd y Rheolwr Ffolio hefyd yn gweithio gyda chlориannydd allanol i gasglu adborth o ddechrau'r rhaglen a gydol y cyfnodau darganfod, hyfforddi, cynhyrchu a dosbarthu.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Yn cael ei reoli gan Bennaeth Cynhyrchu Ffilm Cymru, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- Ddyfeisio a rheoli rhaglen o ddigwyddiadau darganfod a hyfforddi artistiaid ledled Cymru.
- Rheoli cyllideb y Prosiect, gofyn am daliadau ar gyfer siaradwyr, lleoliadau, gwasanaethau (e.e. cyfieithu, iaith arwyddo, arlwy) a gweinyddu'r bwrsariau mynediad.
- Gweithio gyda Rheolwr Cyfathrebu Ffilm Cymru, codi ymwybyddiaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, wedi'u targedu ac fel arall, ar gyfer y cyfnodau darganfod, ymgeisio (galwadau x 2) a hyfforddi.
- Bod yn fan cyswllt cyntaf ar gyfer darpar ymgeiswyr, cynnig cefnogaeth, anogaeth ac eglurhad.
- Derbyn a phrosesu ceisiadau ar gyfer y rhaglen (gyda chefnogaeth gweinyddwr yr adran).
- Cylchredeg ceisiadau i bartneriaid y rhaglen a threfnu cyfarfodydd penderfynu, gan gynnwys o leiaf un asesydd cymheiriaid ar gyfer pob cyfarfod penderfynu.
- Datblygu cronfa o unigolion i gymryd rhan fel aseswyr cymheiriaid, a fydd yn bwydo i'r broses benderfynu a mentora i gefnogi artistiaid wrth ddatblygu a chynhyrchu.
- Adolygu ceisiadau a rhannu awgrymiadau mewn cyfarfodydd comisiynu, gan gynnwys nodi unrhyw feysydd lle gellid cael cefnogaeth bellach trwy'r cyfnod cynhyrchu, megis cefnogaeth gan fentor. Trefnu i'r gweinyddwr adran gymryd cofnodion.
- Darparu nodiadau golygyddol i'r BBC ar y prosiectau a thoriadau o'r ffilmiau byrion.
- Gan ddilyn ymlaen o sesiynau hyfforddi cynharach, gweithio gyda'r artistiaid sydd wedi'u comisiynu er mwyn datblygu eu cynlluniau rhyddhau nhw eu hunain ar gyfer y ffilmiau yn arwain at, a thu hwnt, i lwyfan y BBC.
- Cydlynu'n agos gyda Chynhyrchydd a Chynhyrchydd Gweithredol Ffolio'r BBC gydol y rhaglen, cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd a sicrhau bod y rhaglen yn cael ei darparu'n llyfn, ar gyllideb ac ar amser.
- Casglu adborth, yn ystod y cyfnodau darganfod, hyfforddi, cynhyrchu a rhyddhau'r rhaglen, oddi wrth y rhai sy'n cymryd rhan ac ar lefel gymunedol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r rhaglen ac unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan.
- Mewn partneriaeth â'r BBC a Chyngor Celfyddydau Cymru, datblygu briff a phenodi asesydd allanol i ystyried cyrhaeddiad ac effaith y rhaglen a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhaglenni'r dyfodol.

MANYLEB PERSON

Yn angerddol dros gefnogi gwneuthurwyr ffilm, rhai newydd a rhai sy'n esblygu, i hybu eu gyrfaedd, byddwch yn:

- Gyfathrebwr dymunol ac effeithiol.
- Dangos gallu i reoli prosiectau, amserlenni a chyllidebau'n llwyddiannus.
- Llygad barcud am fanylion a chywirdeb gyda sgiliau trefnu ac adrodd cadarn.
- Dangos sensitifrwydd a dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae artistiaid sy'n cael eu tan gynrychioli yn eu hwynebu.
- Profiad o weithio gyda / cefnogi artistiaid.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiannau sgrin ac o gynnwys arlein / digidol yn benodol.
- Cysylltiadau gyda sefydliadau cymunedol, celfyddydol a'r cyfryngau yng Nghymru.

Mae profiad blaenorol o ddarparu hyfforddiant, digwyddiadau a / neu farchnata ac ymgyrchoedd ymestyn allan yn ddymunol ond nid yn hanfodol ac felly hefyd ddwyieithrwydd (Saesneg / Cymraeg).

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwmo i wella amrywiaeth a chynhwysedd y sector ffilm a chynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn cynnal yr ymrwymiad hwn trwy ein hymarferion recriwtio a staffio.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb, Cynhwysedd ac Amrywiaeth, Cynllun yr Iaith Gymraeg a Chynllun Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol i'w weld yma:

www.ffilmcymruwales.com/index.php/en/company-details-and-contact/policies

Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r holl ymgeiswyr hefyd yn cwblhau ein ffurflen monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd yma:

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/FfCWCareers1819>

Mae'r wybodaeth yn ein helpu i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd ein gweithlu. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw beth o'ch data personol gyda thrydydd partïon. Bydd yr wybodaeth rydych yn ei gyflwyno'n cael ei wneud yn anhysbys ac yn cael ei brosesu'n unol â Deddf Gwarchod Data a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Bydd data ceisiadau'n cael ei gadw am 1 flwyddyn ac yna'n cael ei ddinistrio'n ddiogel gyda dim ond y dadansoddiad coladol nad yw'n cynnwys unrhyw manylion personol yn cael ei gadw. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut rydym yn prosesu data yn ein Polisi Preifatrwydd yma: www.ffilmcymruwales.com/index.php/en/company-details-and-contact/policies

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

Anfonwch eich CV ynghyd ag e-bost yn amlinellu sut mae eich profiad a'ch sgiliau yn cyd-fynd â'r rhai a ddangosir uchod, pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a phryd y byddwch ar gael i ddechrau.

Dylid cyfeirio ceisiadau at Siôn Eirug a'u hanfon at: sion@ffilmcymruwales.com.
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5pm** ar **Ddydd Iau, 28 Tachwedd 2019**.

Cynhelir cyfweiliadau ar 5 Rhagfyr yn swyddfeydd Ffilm Cymru yng Nghaerdydd.
Byddwn yn ad-dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â mynychu'r cyfweiliad.

Fel defnyddwyr y Cynllun Hyder Anabledd, rydym yn gwarantu cyfweld yr holl ymgeiswyr sy'n byw gydag anabledd sy'n cyfarfod â'r fanyleb person. Gan fod llythyrau cais yn cael eu gwahanu oddi wrth y ffurflen monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd wrth gyrraedd y swyddfa, cofiwch roi gwybod i ni yng nghorff eich e-bost ymgeisio os ydych yn byw gydag anabledd.

